NICE National Institute for Health and Care Excellence

Mae NICE wedi asesu 3 phrawf biofarciwr (Actim Partus, PartoSure a Phecyn Casét 10Q ffibronectin y ffetws cyflym ar drothwyon ac eithrio 50 nanogram/mililitr [ng/ml] er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynhyrchion hyn ai peidio.

Dywedodd NICE nad oes digon o dystiolaeth i argymell defnyddio'r profion hyn yn rheolaidd yn y GIG. Mae angen cynnal gwaith ymchwil pellach ar eu cywirdeb a'r ffordd y maent yn effeithio ar y driniaeth ar gyfer y fam a'r baban.

Gall gwneud diagnosis o esgor cynamserol (gan ddechrau cyn 37 wythnos o feichiogrwydd) mewn menywod sydd â meinweoedd cyflawn gynnwys mesur hyd y serfics drwy sgan uwchsain trawsweiniol neu edrych ar lefelau sylwedd a elwir yn fiofarciwr mewn secretiadau serfigol. Mae Actim Partus, PartoSure a Phecyn ecyn Casét 10Q ffibronectin y ffetws cyflym (ar drothwyon ac eithrio 50 ng/ml) yn brofion biomarcwyr a ddefnyddir pan nad yw sgan uwchsain trawsweiniol ar gael nac yn dderbyniol. Mae'r canlyniadau'n helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i benderfynu a oes angen triniaeth yn yr ysbyty i oedi'r enedigaeth.

Argymhellir profion biomarcwyr ffibronectin y ffetws ansoddol eisoes ar drothwyon o 50 ng/ml yng nghanllaw NICE ar esgor a genedigaeth cynamserol ac nid yw'r canllaw hwn yn effeithio ar y defnydd ohonynt.

ISBN: 978-1-4731-2999-3

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights